

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	20 Gorffennaf 2017
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad “alldro” Incwm a Gwariant Refeniw 2016/17, a • Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad.
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi'r wybodaeth, a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Bydd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2. CYFRIFON 2016/17

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2016/17 yma fel Atodiad A**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro" sydd, hyderaf, yn fwy dealladwy i aelodau weithredu fel "bwrdd rheolaethol".
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2016/17 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt "ilywodraethu".
- 2.3 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yna, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynhyrchu adroddiad "ISA260", sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte, i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 22 Medi 2017.

3. TANWARIANT

- 3.1 Mae'r tanwariant net terfynol am 2016/17 yn £378,293.
- 3.2 Mae Atodiad A yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r balans.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 **Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant**, sef –
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2016/17 – Atodiad A
 - Datganiad o'r Cyfrifon 2016/17 (yn amodol ar archwiliad) – Atodiad B
-

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro :

Dim sylwadau o ran priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol :

Awdur yr adroddiad.